
Proof
_#knifefree
Pecyn partneriaid

# _#knifefree Canllaw i bartneriaid

Yn rhan o ymroddiad parhaus y llywodraeth i daclo troseddau difrifol a threisgar, mae'r Swyddfa Gartref wedi lansio cyfnod nesaf yr ymgyrch #knifefree.

Lansiwyd yr ymgyrch #knifefree yn wreiddiol ym Mawrth 2018, a'r nod yw newid agweddau ac ymddygiad pobl ifanc rhwng 10 – 21 oed trwy amlygu straeon y rhai sydd wedi dewis peidio cario cyllell.

Trwy adborth gan bartneriaid a phobl ifanc, rydym wedi diwygio ein deunyddiau ymgyrchu ar gyfer y gwanwyn 2019. Mae ffilmiau, posteri, cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion radio newydd yr ymgyrch yn rhoi mwy o bwyslais ar daclo'r dehongliad bod pob person ifanc yn cario cyllell. Gyda'ch cefnogaeth, gobeithiwn y bydd hyn yn helpu creu mudiad #knifefree. Mae'r ymgyrch hefyd yn gobeithio ysbrydoli pobl ifanc i wneud dewisiadau amgen trwy arddangos amrywiaeth eang o hobïau a gweithgareddau.

Bydd hysbysebion yn parhau i gyfeirio pobl ifanc at wefan benodol knifefree.co.uk. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth ar oblygiadau cario cyllyll ac yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth gyfrinachol a gweithgareddau amgen. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth i rieni ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Mae'r Pecyn Partneriaid hefyd yn cynnwys dolenni i asedau'r ymgyrch y gellir eu defnyddio i gefnogi'r ymgyrch yn eich ardal leol.  Mae cyfieithiadau Cymraeg hefyd ar gael trwy'r dolenni yn y pecyn hwn, yn ogystal ag asedau'r ymgyrch flaenorol. Diolch i chi o flaen llaw am eich cefnogaeth i helpu taclo troseddau cyllyll ac annog pobl ifanc i gymryd y camau i fyw bywydau heb gyllyll.

@UKhomeoffice

@ukhomeofficegov

UKhomeoffice

Ffilmiau astudiaeth achos
(60 eiliad, 30 eiliad)

Posteri'r ymgyrch i'w hargraffu

Delweddau a graffeg yr ymgyrch i rannu ar Instagram, Twitter a Facebook

# _#knifefree Catalog cynnwys

## Ffilmiau

**Mae ein ffilm arwr 60 eiliad** yn arddangos straeon tri o bobl ifanc sydd wedi gwneud y penderfyniad mawr i fyw yn #knifefree.




Rydyn ni hefyd wedi creu ffilmiau byrrach 30 eiliad:



Meghan



Sean



Cameron

Golygiadau cyfryngau cymdeithasol 10 eiliad




Arwr gyda Meghan CTA




Arwr gyda Cameron CTA

**Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch**

**Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch flaenorol**

# _#knifefree Catalog cynnwys

## Posteri ac asedau cyfryngau cymdeithasol:

Mae yna bedwar poster newydd yn dangos actorion i bortreadu straeon go iawn pobl ifanc sydd wedi eu heffeithio gan droseddau cyllyll, a sut maent wedi gallu bod yn #knifefree. Gallwch gael y posteri trwy ddilyn y dolenni isod gyda fersiynau Cymraeg ar gael i'w lawrlwytho. Gallwch hefyd gael posteri o’r ymgyrch flaenorol.

Os ydych chi'n bwriadu rhoi un o'r delweddau ymgyrch #knifefree ar gyfryngau cymdeithasol, gwnewch yn siŵr ei fod yn cynnwys y testun awgrymedig ac URL yn ogystal â defnyddio hashnod yr ymgyrch #knifefree.
















**Cliciwch yma i lawrlwytho asedau’r ymgyrch**

# _#knifefree Catalog cynnwys

## Sain:

Mae yna bum ffeil sain sy'n adrodd stori pob unigolyn.
Cliciwch ar enw i lawrlwytho'r ffeil sain

Sean

Meghan

Cameron

Charlie

Aaron

**Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch**


Rydyn ni wedi creu logo 'cefnogol' er mwyn i chi allu defnyddio ein deunydd ymgyrch #knifefree gyda logos eich sefydliadau wedi eu cynnwys. I ofyn am gopi o'r logo a'r canllawiau, cysylltwch â: knifefreecampaign@homeoffice.gov.uk

Yn cefnogi

_#knifefree

# _#knifefree Cynlluniau gwersi ABGI

Rydyn ni'n gweithio gyda'r Gymdeithas ABGI ac athrawon i ddiweddaru ein cynlluniau gwersi gan ddefnyddio asedau'r ymgyrch newydd. Byddant ar gael ar ddechrau'r haf. Yn y cyfamser, rydych yn dal i allu lawrlwytho a defnyddio'r cynlluniau gwersi presennol am ddim. Gan ddefnyddio straeon go iawn, mae'r rhain yn hysbysu pobl ifanc o oblygiadau cario cyllell ac yn eu hysbrydoli i ddilyn trywydd amgen positif.




**Cliciwch yma i lawrlwytho'r cynlluniau gwersi #knifefree ABGI o'r wefan ABGI**